ATODLEN 2 Rheoliad 5

Cymwysterau Archwilwyr Bwyd

# RHAN 1

**1.** Gradd gyntaf (gydag anrhydedd) mewn microbioleg (beth bynnag fo teitl y radd).

**2.** Gradd Meistr yn y Gwyddorau, ar yr amod—

(a) y dyfarnwyd y radd yn dilyn arholiad yn hytrach na thraethawd; a

(b) bod o leiaf un papur yn y radd yn bapur mewn microbioleg.

**3.** Cymrodoriaeth Sefydliad y Gwyddorau Biomeddygol, os enillwyd y Gymrodoriaeth honno ar sail pasio'r arholiad diploma arbenigol uwch mewn microbioleg feddygol, a osodir gan y Sefydliad hwnnw.

**4.** Y radd Meistr mewn Dadansoddi Cemegol a ddyfernir gan y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.

**5.** Cymrodoriaeth neu Aelodaeth o'r Sefydliad Gwyddor a Thechnoleg Bwyd ynghyd ag aelodaeth o'i Grŵp Proffesiynol Microbioleg Bwyd.

**6.** Ym mharagraffau 1 a 2 o'r Rhan hon, ystyr “gradd” (“*degree*”) yw gradd a ddyfarnwyd gan gorff a gydnabyddir at ddibenion adran 214 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (sy'n ymwneud â chyrff sydd â phŵer i ddyfarnu graddau yn y Deyrnas Unedig) neu a ddyfarnwyd gan brifysgol mewn Aelod-wladwriaeth arall.

# RHAN 2

**1.** Labordy Cemegydd y Llywodraeth.

**2.** Labordy sy'n eiddo i Adran y Llywodraeth neu labordy o dan reolaeth gyfatebol llywodraeth Aelod-wladwriaeth arall.

**3.** Labordy a benodwyd yn labordy rheoli swyddogol o dan Reoliad 882/2004.

**4.** Labordy prifysgol yn y Deyrnas Unedig neu mewn Aelod-wladwriaeth arall.

**5.** Labordy 'corff cyllidadwy' o fewn yr ystyr a roddir i “fundable body” yn Neddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 2005(**1**)

**6.** Labordy Coleg Amaethyddol yr Alban.

**7.** Labordy sy'n arbenigo mewn microbioleg bwyd ac a achredwyd ar gyfer ISO/IEC 17025.

(**1**) 2005 dsa 6